DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad Practis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Practis Deintyddol Amlwch

Dyddiad Arolygu: 31 Ionawr 2017

Dyddiad Cyhoeddi: 2 Mai 2017

Gellir darparu’r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o’r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:**0300 062 8163
**E-bost:** hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-4734-9072-7© Hawlfraint y Goron 2017

# Cynnwys

1. Cyflwyniad .......... 2

2. Cyd-destun .......... 3

3. Crynodeb .......... 4

Canfyddiadau .......... 6

Ansawdd Profiad y Claf .......... 6

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol .......... 9

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 13

4. Y Camau Nesaf .......... 15

5. Methodoleg .......... 16

Atodiad A .......... 18

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw’r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cynhaliodd AGIC arolygiad o Bractis Deintyddol Amlwch yn 14 Stryd Salem, Amlwch, Ynys Môn, LL68 9BP, ar 31 Ionawr 2017.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd Practis Deintyddol Amlwch yn bodloni’r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu’r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau’n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn gydnaws â darpariaeth gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain mewn perthynas â safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Amlwch yn bractis sydd wedi'i hen sefydlu ac sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion ar Ynys Môn. Mae'r practis wedi mynd trwy raglen sylweddol o fuddsoddiad ac ailwampio'n ddiweddar, ers i'r perchennog presennol gymryd drosto yn gynnar yn 2016.

Mae’r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae Practis Deintyddol Amlwch yn bractis cymysg sy’n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys dau ddeintydd, un deintydd sylfaen, un therapydd, pedair nyrs ddeintyddol ac un rheolwr practis/derbynnydd.

## 3. Crynodeb

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth bod Practis Deintyddol Amlwch yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol o ansawdd uchel ar gyfer cleifion, ac mae'r cleifion yn uchel eu parch tuag at y practis. Mae'r gwaith ailwampio a wnaed yn y practis yn ddiweddar wedi'i wneud i safon uchel, ac mae cynlluniau ar waith i ailwampio'r ystafelloedd triniaeth eraill, y dderbynfa a'r man aros.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddid digon o wybodaeth i gleifion wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth, a gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn fodlon ar y driniaeth a'r gwasanaeth a dderbyniwyd.
- Gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth hwn yn cael ei reoli'n dda iawn, gyda systemau effeithiol i gefnogi’r rheolaeth a’r arweinyddiaeth gyffredinol.
- Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus yn eu swyddi ac yn gymwys wrth gyflawni eu cyfrifoldebau.
- Roedd cofnodion clinigol rhagorol yn cael eu cynnal ar gyfer cleifion.
- Roedd un ystafell driniaeth glinigol a oedd wedi cael ei hailwampio wedi'i chyfarparu'n dda, i'w gweld yn lân, yn daclus ac yn drefnus.
- Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio pelydrau-X yn ddiogel.

Rydym yn argymell y gallai'r practis wneud y gwelliannau canlynol:

- Dylai'r practis adolygu ei bolisi cyfredol ar gyfer ymdrin â chwynion i sicrhau ei bod yn glir i gleifion sut i wneud cwyn am driniaeth breifat a thriniaeth y GIG.
- Dylid cynnal archwiliadau i sicrhau ansawdd delweddau (peiriant pelydr-X) o leiaf unwaith y flwyddyn.
- Cynghorwyd y practis i sicrhau bod bin gwastraff glanweithiol yn cael ei roi yn y toiled ar gyfer staff, a bod y bin yn cael ei newid am fin a weithredir â phedal troed.
- Nes bod y gwaith ailwampio wedi cael ei gynnal yn ystafelloedd triniaeth 2 a 3, dylai'r practis sicrhau bod y lloriau a'r unedau storio clinigol yn y ddwy ystafell driniaeth gael eu selio, a bod unrhyw gypyrddau agored sy'n dal offerynnau deintyddol yn cael eu cau er

mwyn atal halogi gan ddeunyddiau aerosol. Dylid ailglustogi'r gadair ddeintyddol yn ystafell driniaeth 3 oherwydd y difrod/cracio.

## Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn ymroddedig i ddarparu profiad cadarnhaol ar gyfer ei gleifion. Roedd yr adborth a gafwyd drwy holiaduron cleifion yn gadarnhaol ac yn cadarnhau bod cleifion yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth maent yn ei dderbyn.**

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol sy'n cael eu darparu. Cafodd 20 eu cwblhau a'u dychwelyd atom. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *'Dw i bob amser wedi bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarparwyd'*
>
> *'Maent bob amser yn barod iawn eu cymwynas ac yn hyblyg'*
>
> *'Mae'r gwaith ailwampio ar y practis dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn welliant gwych'*
>
> *'Dw i wedi cael fy nhrin yn dda iawn yn y practis hwn erioed'*
>
> *Gwasanaeth a thriniaeth ragorol'*
>
> *'Dw i'n fodlon iawn ar Bractis Deintyddol Amlwch a'r holl staff'*

Gofal gydag urddas

Gwnaethom arsylwi ar y dull cynnes, cyfeillgar a phroffesiynol roedd yr holl staff yn y practis wedi ei fabwysiadu tuag at gleifion. O'r ugain holiadur a gwblhawyd, cadarnhaodd pob claf eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent wedi'u derbyn.

Mae gan y practis drefniadau i amddiffyn preifatrwydd cleifion, gan gynnwys mannau i gleifion gynnal sgyrsiau preifat â staff, ac i staff ymdrin â negeseuon ffôn gan gleifion.

Gofal amserol

Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn modd amserol, ac o'r holiaduron a gwblhawyd, dim ond pedwar claf a ddywedodd eu bod wedi profi oediadau byr erioed, ac nid oedd y rhain wedi bod yn broblem.

Dywedodd naw claf nad oeddent yn gwybod sut i gael mynediad at ofal deintyddol y tu allan i oriau. Roedd arwydd y tu allan i fynedfa'r adeilad yn rhoi'r manylion cyswllt brys, a rhoddid y manylion hyn ar beiriant ateb y practis hefyd. Mae manylion hefyd yn y daflen wybodaeth i gleifion. Gwnaethom argymell bod y practis yn ystyried ffyrdd eraill o sicrhau bod yr holl gleifion yn ymwybodol o fanylion cyswllt y gwasanaeth y tu allan i oriau rhag ofn bod argyfwng.

<u>Cadw'n iach</u>

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd ein holiadur eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd digon o daflenni a phosteri hybu iechyd deintyddol ar gael yn y dderbynfa a'r man aros, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth ynglŷn â sut i ofalu am eu hylendid ceg eu hunain. Roedd rhestrau prisiau hefyd yn cael eu harddangos yn eglur.

Dywedodd dros 80% o gleifion wrthym fod eu hanghenion ieithyddol yn cael eu diwallu, a gwelsom staff y dderbynfa'n cyfathrebu â chleifion yn ddwyieithog.

<u>Gofal unigol</u>

Roedd ymatebion o holiaduron cleifion yn dangos inni fod yr holl gleifion yn teimlo eu bod wedi derbyn digon o gyngor am eu triniaeth unigol ac roeddent yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn a bob amser yn teimlo eu bod yn derbyn croeso cynnes.

Lleolir y practis dros ddau lawr ac mae'r holl ystafelloedd triniaeth wedi'u lleoli ar y llawr daear. Mae'r dderbynfa, y man aros a'r ddwy ystafell driniaeth ddeintyddol yn hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn.

Roedd un toiled deuryw at ddefnydd cleifion ac un toiled ar y llawr cyntaf ar gyfer staff. Roedd arwyddion clir ar gyfer y ddau gyfleuster ac roeddent i'w gweld yn lân. Fodd bynnag, nid oedd bin gwastraff glanweithiol yn y toiled ar gyfer staff, a gwnaethom hefyd gynghori'r practis i newid y bin yn y toiled ar gyfer staff am fin a weithredir â phedal troed.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Cynghorwyd y practis i sicrhau bod bin gwastraff glanweithiol yn cael ei roi yn y toiled ar gyfer staff, a bod y bin yn cael ei newid am fin a weithredir â phedal troed.***

Gwnaethom adolygu polisi'r practis ar gyfer ymdrin â chwynion ac, ar adeg yr arolygiad, nid oedd y practis wedi derbyn unrhyw gwynion. Mae polisi'r practis ar gyfer ymdrin â chwynion yn cynnwys triniaeth breifat a thriniaeth y GIG, a gwnaethom gynghori'r practis i adolygu'r polisi, gan sicrhau bod yr amserlenni

cywir ar gyfer cydnabod ac ymateb i gwynion yn cael eu cynnwys yn unol â'r rheoliadau ar gyfer cleifion preifat a 'Gweithio i Wella'[1] ar gyfer cleifion y GIG.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis adolygu ei bolisi cyfredol ar gyfer ymdrin â chwynion i sicrhau ei bod yn glir i gleifion sut i wneud cwyn am driniaeth breifat a thriniaeth y GIG.***

Roedd y weithdrefn ar gyfer gwneud cwyn wedi'i harddangos yn glir wrth ddesg y dderbynfa ac yn yr ystafell aros; roedd hefyd wedi'i hamlinellu yn y daflen wybodaeth i gleifion. Fodd bynnag, er y mesurau hyn, gwnaethom nodi o'r holiaduron a gwblhawyd nad oedd dros hanner y cleifion yn gwybod sut i wneud cwyn. Gwnaethom argymell bod y practis yn ystyried ffyrdd eraill o wneud yn siŵr bod pob claf yn gwybod sut i wneud cwyn.

Dywedodd y practis wrthym fod unrhyw bryderon anffurfiol yn cael eu cofnodi yng nghofnodion unigol cleifion ac yn derbyn y sylw priodol. Gwnaethom argymell bod y practis yn cofnodi pryderon anffurfiol mewn lòg canolog er mwyn nodi unrhyw themâu cyffredin.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylid rhoi lòg canolog ar waith i gofnodi pryderon anffurfiol cleifion.***

Gwnaethom drafod mecanwaith y practis ar gyfer casglu adborth gan gleifion. Mae blwch sylwadau yn cael ei wneud ar gael yn y dderbynfa ac mae unrhyw sylwadau'n cael eu trafod mewn cyfarfodydd tîm. Dywedodd y practis wrthym y bydd holiadur yn cael ei roi i gleifion. Bydd hyn yn sicrhau y gofynnir i gleifion am eu hadborth ac y gall y practis ddangos y gweithredir ar adborth cleifion a'i fod yn cael ei ddefnyddio i ddylanwadu ar newidiadau i'r ffordd mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu.

---

[1] http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/gweithio-i-wella

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Canfuom fod y practis yn cael ei reoli gyda'r bwriad o fodloni'r safonau perthnasol er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion. At ei gilydd, mae'r practis yn cadw cofnodion clinigol rhagorol.**

<u>Gofal diogel</u>

Canfuom fod y practis yn cael ei reoli gyda'r bwriad o fodloni'r safonau perthnasol er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.  Roedd y practis yn darparu amgylchedd glân.

Mae'r practis wedi mynd trwy raglen sylweddol o ailwampio'n ddiweddar, ers i'r perchennog presennol gymryd drosto yn gynnar yn 2016, ac mae'n parhau i fuddsoddi yn y rhaglen honno.

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn yr ystafelloedd triniaeth a chanfod eu bod yn cynnwys yr offer perthnasol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol.  Mae ystafell driniaeth 1 eisoes wedi cael ei hailwampio i safon uchel; mae'n fodern, wedi'i chyfarparu'n dda iawn, ac mewn cyflwr ardderchog. Hefyd mae cynlluniau yn yr arfaeth i ailwampio ystafelloedd triniaeth 2 a 3. Fodd bynnag, gwnaethom hysbysu'r practis bod angen rhoi rhai mesurau dros dro ar waith yn y ddwy ystafell driniaeth cyn i'r ailwampio gael ei wneud. Gwnaethom argymell y dylid selio'r lloriau a'r cypyrddau storio clinigol yn ystafelloedd triniaeth 2 a 3 i'w gwneud yn haws eu glanhau, a dylid cau unrhyw unedau storio agored, gan atal offerynnau rhag bod yn agored i gael eu halogi gan ddeunyddiau aerosol. Nodwyd hefyd fod y gadair ddeintyddol yn ystafell driniaeth 3 wedi cael ei thrwsio â thâp a bod y finyl ar y cynhaliwr pen wedi dechrau cracio hefyd.  Dywedodd y practis wrthym fod opsiynau'n cael eu hystyried ar gyfer ailglustogi'r gadair.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod y lloriau a'r unedau yn ystafelloedd triniaeth 2 a 3 yn cael eu selio.***

***Dylid cau a selio'r cypyrddau agored sy'n dal offerynnau deintyddol yn ystafelloedd triniaeth 2 a 3.***

***Dylid ailglustogi'r gadair ddeintyddol yn ystafell driniaeth 3.***

Fe wnaethom nodi bod y practis yn defnyddio dyfais ailweinio nodwyddau, ac oherwydd anafiadau pigo gan nodwyddau yn y practis yn y gorffennol, gwnaethom gynghori'r practis i ystyried system fwy diogel ar gyfer offer miniog.

Gwnaethom nodi bod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cwblhau ar yr holl offer trydanol gan sicrhau bod dyfeisiau bach yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd diffoddwyr tân wedi'u gosod drwy'r adeilad a gwelsom dystiolaeth o gontract cynnal a chadw cyfarpar tân cyfredol. Roedd cyfarwyddiadau ar gyfer yr allanfeydd brys wedi'u harddangos yn glir ac roedd poster Iechyd a Diogelwch wedi'i arddangos yn glir.

Canfuom fod yr holl gemegau yn cael eu cadw'n ddiogel ac nid oedd yr un ohonynt wedi ei adael mewn mannau cyhoeddus. Roedd ffeil ar gael a oedd yn cynnwys nifer o ddalenni data yn ymwneud â'r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH), ac roedd asesiadau risg perthnasol ar waith a oedd wedi cael eu diweddaru'n ddiweddar.

Gwelwyd asesiadau risg iechyd a diogelwch cyffredinol ar y diwrnod ac roedd y rhain wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar.

Gwelsom dystiolaeth bod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel, a gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant cyfredol ar ymbelydredd ïoneiddio ar gyfer yr holl ddeintyddion.

Roedd trefniadau derbyniol ar waith ar gyfer amddiffyn cleifion a staff pan oedd yr offer pelydr-X yn cael eu defnyddio. Gwelsom dystiolaeth o wiriadau diogelwch, gwaith cynnal a chadw offer, a phrofi offer pelydr-X.

Nid oedd y practis wedi cynnal unrhyw archwiliadau o ansawdd delweddau ers y newid mewn perchnogaeth yn 2016. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd bod trefniadau ar waith ac mae'r rhain wedi cael eu cynllunio ar gyfer 2017. Gwnaethom gynghori'r practis i sicrhau bod y rhain yn cael eu cynnal o leiaf unwaith y flwyddyn.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylid cynnal archwiliadau sicrhau ansawdd delweddau (peiriant pelydr-X) o leiaf unwaith y flwyddyn.***

Nid oedd gan y practis bolisi dadebru ar waith; fodd bynnag, roedd ganddo weithdrefnau ar waith a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion ar ffurf siart lif. Gwnaethom hysbysu'r practis am yr angen i ddatblygu polisi dadebru yn ogystal â'r siart lif.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylid llunio polisi dadebru.***

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y tîm wedi derbyn yr holl hyfforddiant perthnasol mewn dadebru cardio-pwlmonaidd, ac roedd y practis

wedi penodi dau swyddog cymorth cyntaf. Roedd cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel ym mhob ystafell driniaeth, a oedd yn sicrhau eu bod ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (claf yn llewygu/cwympo), ac ystyrir hyn yn arfer da. Gwelsom dystiolaeth bod system effeithiol ar waith i wirio a chofnodi'r cyffuriau brys a'r ocsigen; fodd bynnag, nid oedd system ar waith i gofnodi'r galedwedd frys, e.e. nodwyddau, chwistrelli, llwybrau anadlu artiffisial a mygydau. Gwnaethom gynghori'r practis i gadw lòg o ddyddiadau dod i ben yr holl galedwedd frys. Gwnaethom hefyd gynghori'r practis i sicrhau bod y pecyn dadebru'n cynnwys bag pediatrig hunan-enchwythu gyda chronfa (ambu-bag) a mygydau wyneb.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis gyflwyno lòg o ddyddiadau dod i ben yr holl galedwedd frys.***

***Dylai'r pecyn cyfarpar dadebru gynnwys bagiau pediatrig hunan-enchwythu gyda chronfa a mygydau wyneb.***

Roedd gan y practis gyfleusterau neilltuedig ardderchog ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, ac roedd y cyfleusterau hyn wedi cael eu hailwampio i safon uchel yn ddiweddar. Roedd y man yn amlwg yn lân ac yn rhydd rhag annibendod.  Roeddem yn fodlon bod gweithdrefnau priodol a hen sefydledig ar waith i leihau'r risg o groes-heintio er mwyn amddiffyn y cleifion a'r staff.  Nodwyd bod proses lanhau'r practis, a ddefnyddir cyn sterileiddio, yn cael ei chynnal â llaw gan y nyrsys deintyddol. Fodd bynnag, yn ystod y broses sterileiddio â'r awtoclaf, nodwyd nad oedd lòg o bob cylchred yn cael ei gadw, a gwnaethom hysbysu'r practis am yr angen i logio pob cylchred â llaw a chadw'r cofnodion am o leiaf dwy flynedd, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Fe'n hysbysodd y practis ni y byddai lòg yn cael ei roi ar waith. Fodd bynnag, y mae ganddynt gynllun ar waith i osod cofnodydd data gan fod y dull cyfredol yn cymryd llawer o amser ac yn ddwys o ran gwaith llaw.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Cyflwyno lòg a chofnodi pob cylchred yr awtoclaf.***

Roeddem yn gallu gweld bod gan y practis system ar waith ar gyfer rheoli gwastraff yn briodol ac yn ddiogel.  Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig).  Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd y bagiau oren cywir yn cael eu defnyddio yn yr ystafelloedd triniaeth un unol â'r dulliau gwaredu

cyfredol. Dywedodd y practis y byddai bagiau o'r lliw cywir yn cael eu defnyddio ar unwaith.

Canfuom fod gan y practis bolisi diogelu ar waith i amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed, a bod yr holl staff clinigol wedi cwblhau'r hyfforddiant amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Gofal effeithiol

Roedd tystiolaeth bod y practis ar y cyfan yn cadw cofnodion clinigol ardderchog, gan ddangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu i sicrhau diogelwch a lles cleifion.

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a chanfod bod eitemau a oedd yn ymwneud â gofal cleifion yn cynnwys gwybodaeth ddigonol o ran trafodaethau a gynhaliwyd am opsiynau triniaeth, costau, risgiau a manteision, a sut y cafwyd cydsyniad y claf. Roedd tystiolaeth hefyd o gynllunio triniaeth a, lle bo'n ofynnol, cynllun triniaeth yn cael ei roi i gleifion. Roedd y deintyddion yn cofnodi bod sgrinio am ganser yn cael ei gynnal ac y rhoddid cyngor ynglŷn â rhoi'r gorau i ysmygu.

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Canfuom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n dda iawn gyda systemau effeithiol i gefnogi rheolaeth ac arweinyddiaeth gyffredinol. Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus yn eu swyddogaethau ac yn gymwys i gyflawni eu cyfrifoldebau.**

Mae Practis Deintyddol Amlwch yn bractis sydd wedi'i hen sefydlu ac sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion ar Ynys Môn. Mae'r practis wedi mynd trwy raglen sylweddol o fuddsoddiad ac ailwampio'n ddiweddar, ers i'r perchennog presennol gymryd drosto yn gynnar yn 2016.

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau clir o atebolrwydd. Gan fod y rhan fwyaf o'r staff wedi gweithio gyda'i gilydd ers blynyddoedd lawer, roedd cydberthynas dda rhyngddynt. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn hyderus ynghylch leisio unrhyw broblemau neu bryderon wrth yr uwch-ddeintydd neu wrth ei gilydd, a bod y newidiadau a wnaed yn ystod y 12 mis diweddaf wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Gwelsom ffolderi sefydlu staff wedi'u cwblhau ac roedd y rhain wedi'u cynllunio'n dda. Gwelsom fod staff wedi cael mynediad at amrediad eang o hyfforddiant, a oedd yn bodloni gofynion datblygu proffesiynol parhaus,[2] a gwelsom dystiolaeth o gyfarfodydd tîm misol ac arfarniadau staff blynyddol.

Gwnaethom gadarnhau bod gan yr holl staff perthnasol wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, ac roeddent wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd tystysgrifau AGIC y deintyddion wedi'u harddangos, fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, ac fe welsom gadarnhad o yswiriant indemniad.

Canfuom fod y practis yn arddangos ei fanylion cyswllt brys a'i oriau agor y tu allan i fynedfa'r adeilad, ynghyd ag enw a chymwysterau ei holl ymarferwyr deintyddol.

Gwelsom gofnodion ynglŷn â statws imiwnedd Hepatitis B pob aelod o staff clinigol sy'n gweithio yn y practis.

Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith gan y practis a chanfod eu bod yn drwyadl, a gwelsom dystiolaeth eu bod yn adlewyrchu arferion gwirioneddol. Fodd bynnag, nid oedd yr holl bolisïau a

[2] https://archive.gdc-uk.org/Dentalprofessionals/CPD/Pages/default.aspx

gweithdrefnau'n nodi’r fersiwn nac yn cynnwys dyddiadau adolygu, a gwnaethom gynghori'r practis i sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau'n cael eu diweddaru'n rheolaidd, ac i sicrhau y rhoddir system ar waith i ddangos bod y staff wedi darllen a deall y polisïau.

## 4. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i’r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i’r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai’r cynllun gwella nodi’n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a ganfuwyd ym Mhractis Deintyddol Amlwch yn derbyn sylw, gan gynnwys graddfeydd amser.

Mae angen i’r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i’r problemau a nodir yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru. Yn gyffredinol, dylai’r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â’r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella’r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai’r practis roi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o’r broses arolygu deintyddol barhaus.

## 5. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**

Ffigur 1




Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[3] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[4] Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

---

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

[4] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, yn cynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau â staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A i'r adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Amlwch

## Dyddiad yr Arolygiad: 31 Ionawr 2017

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| Tudalen 6 | Cynghorwyd y practis i sicrhau bod bin gwastraff glanweithiol yn cael ei roi yn y toiled ar gyfer staff, a bod y bin yn cael ei newid am fin a weithredir â phedal troed. | Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Dyletswydd Gofal) 1991<br>Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005 | Prynu bin gwastraff glanweithiol ar gyfer y toiled ar gyfer staff.<br>Newid y bin cyfredol am un a weithredir â phedal troed. | Mr J. M. Klevin Fernando<br>Mr J. M. Klevin Fernando | Bydd bin gwastraff glanweithiol yn y practis erbyn 31 Mawrth 2017.<br>Newidiwyd y bin cyfredol. |
| Tudalen 7 | Dylai'r practis adolygu ei bolisi cyfredol ar gyfer ymdrin â chwynion i sicrhau ei bod yn glir i gleifion sut i wneud cwyn am driniaeth breifat a | Safon Iechyd a Gofal 6.3<br>Rheoliad 15 (4) | Creu lòg cwynion. Rhoi poster newydd ar yr hysbysfwrdd i gleifion i egluro'n well sut i wneud cwyn. | Mr J. M. Klevin Fernando | Mae'r gwaith o greu lòg cwynion a rhoi poster ar yr hysbysfwrdd i |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | thriniaeth y GIG. | | | | gleifion eisoes wedi cael ei weithredu. |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| Tudalen 8 | Dylai'r practis sicrhau bod y lloriau a'r unedau yn ystafelloedd triniaeth 2 a 3 yn cael eu selio.<br><br>Dylid cau a selio'r cypyrddau agored sy'n dal offerynnau deintyddol yn ystafelloedd triniaeth 2 a 3.<br><br>Dylid ailglustogi'r gadair ddeintyddol yn ystafell driniaeth 3. | Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05<br><br>Adran 6.46, 6.47 a'r nodyn yn Adran 6.63 | Cynllun cychwynnol – Gosod cypyrddau yn ystafelloedd triniaeth 2 a 3. Symudir offerynnau i gypyrddau sy'n cau. Bydd y lloriau a'r unedau'n cael eu selio â'r sgertin cywir a silicon.<br><br>Cynllun ar gyfer y dyfodol – Bydd ystafelloedd triniaeth 2 a 3 yn cael eu hailwampio yn ystod y ddwy neu dair blynedd nesaf i gynnwys cypyrddau, lloriau a chadeiriau newydd sbon danlli.<br><br>Archebwyd clustogwaith newydd o Henry Schein ar gyfer y gadair yn ystafell driniaeth 3. | Mr J. M. Klevin Fernando<br><br>Mr J. M. Klevin Fernando | Bydd y gwaith o osod y cypyrddau a selio'r lloriau wedi ei gwblhau erbyn 13 Ebrill 2017.<br><br>Rydym yn aros am ddyddiad gan Henry Schein am y clustogwaith ar gyfer y gadair. Cwblheir y gwaith erbyn 5 Mai 2017. |
| Tudalen 9 | Dylid cynnal archwiliadau sicrhau | Rheoliadau Ymbelydredd | Trefnwyd archwiliad a bydd pob un | Mr J. M. Klevin Fernando | I'w weithredu cyn gynted ag y bo |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu’r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | ansawdd delweddau (peiriant pelydr-X) o leiaf unwaith y flwyddyn. | Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000<br>Canllawiau Bwrdd Cenedlaethol Diogelu Radiolegol ynglŷn â Radiograffi Deintyddol | o'r tair ystafell driniaeth yn dechrau'r archwiliad ym mis Ebrill dros gyfnod o ddau fis ac yn cynnal archwiliad bob blwyddyn. | | modd. Dechrau mis Ebrill |
| Tudalen 9 | Dylid llunio polisi dadebru. | Safonau Iechyd a Gofal 5.1<br>Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.2.6 a 6.6.6 | Llunio polisi dadebru | Mr J. M. Klevin Fernando | Fe'i lluniwyd eisoes ac mae'r practis yn cydymffurfio â'r polisi. |
| Tudalen 10 | Dylai'r practis gyflwyno lòg o ddyddiadau dod i ben yr holl galedwedd frys.<br>Dylai'r pecyn cyfarpar dadebru gynnwys bagiau pediatrig hunan-enchwythu gyda chronfa a mygydau wyneb. | Rheoliad 14 (1) (d)<br>Rheoliadau Iechyd a Diogelwch 1981 | Mae lòg wedi cael ei gyflwyno a’i gofnodi a bydd yn cael ei gynnal.<br>Archebwyd offer o Medisave. | Mr J. M. Klevin Fernando<br>Mr J. M. Klevin Fernando | Cyflwynwyd ar 1 Mawrth 2017.<br>Derbyniwyd yr offer ar 13 Mawrth 2017. |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 10 | Cyflwyno lòg a chofnodi pob cylchred yr awtoclaf. | Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, Adran 4.3 | Mae dau gofnodydd data wedi cael eu harchebu o DBG. | Mr J. M. Klevin Fernando | Bydd y cofnodyddion data'n cael eu gosod ar 23 Mawrth 2017. |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| | Ddim yn berthnasol | | | | |

**Cynrychiolydd y Practis:** **Mr J. M. Klevin Fernando**

**Enw (wedi'i brintio):** **Mr Joseph Mario Klevin Fernando**

**Teitl:** **Prif Lawfeddyg Deintyddol**

**Dyddiad:** **13 Mawrth 2017**